# Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau: Cylch Gorchwyl

## Cymeradwywyd gan Fwrdd Ofcom, 24 Mai 2016 (fel y'i diwygiwyd ar 6 Chwefror 2019)

### Rhwymedigaethau Statudol

1. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu ac yn cynnal trefniadau effeithiol ar gyfer ymgynghori ynghylch cyflawni ei swyddogaethau gyda'r mathau o ddefnyddwyr a nodir yn adran 16 (1)(a) i (c) o'r Ddeddf. Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys sefydlu a chynnal panel o bobl y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel "y Panel Defnyddwyr" gyda'r swyddogaeth o gynghori Ofcom ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn y Panel. Mae Ofcom wedi sefydlu Panel o'r fath, o'r enw'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ("y Panel").

### Swyddogaethau

2. Dyma swyddogaethau'r Panel:

- Ceisio nodi materion sy'n effeithio ar fusnesau bach a defnyddwyr domestig a dinasyddion yn y sector cyfathrebiadau, ar y cyd fel Panel ac yn unigol fel Aelodau, gan gyfeirio'n benodol at y sectorau lle mae ganddynt wybodaeth neu arbenigedd penodol;

- Rhoi cyngor i Ofcom am faterion cyffredinol a phenodol sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebu sy'n codi yng Nghymru.

- Rhoi cyngor a sylwadau yn ôl y galw ar faterion mae Ofcom yn eu cyflwyno i'r Pwyllgor;

- Cynnig sylwadau, fel sy'n briodol, ar ymgynghoriadau ac ymchwil sy'n cael eu cynnal gan Ofcom;

- Cynnal ymchwil ar ran Ofcom, pan mae Ofcom yn gofyn iddynt wneud hynny;

- Rhoi cyngor a sylwadau i gyrff eraill ar faterion defnyddwyr a dinasyddion sy'n ymwneud â'r sector cyfathrebiadau, yn ôl yr hyn sy'n briodol ym marn y Panel;

- Cyhoeddi unrhyw wybodaeth sy'n briodol ym marn y Panel am y cyngor y mae'n ei roi, am gyflawni swyddogaethau eraill y Panel ac am ganlyniadau ymchwil a gynhelir gan y Panel neu ar ei ran;

- Gwneud trefniadau ar gyfer cynnal ymchwil i unrhyw faterion eraill y mae'n ymddangos i'r Panel eu bod yn berthnasol i gyflawni swyddogaethau'r Panel fel sy'n briodol yn eu barn nhw;

- Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r Panel;

- Glynu wrth yr egwyddorion a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom; a

- Chyfrannu gwybodaeth am ei waith i adroddiad blynyddol Ofcom i sicrhau bod gwaith y rheoleiddiwr yn y sector cyfathrebiadau ar faterion sy’n effeithio ar ddefnyddwyr a dinasyddion yn cael ei adlewyrchu.

## Aelodaeth

3. Bydd y Panel a’r Cadeirydd yn cael eu penodi gan Fwrdd Ofcom a byddant yn cynnwys hyd at ddeuddeg Aelod ar unrhyw adeg (bydd pob un ohonynt yn anweithredol).

4. Os yw’r Cadeirydd o’r farn bod hynny’n briodol, gellir gwneud penderfyniadau dros yr e-bost.

5. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd gweddill yr aelodau yn ethol un o'u plith i gadeirio cyfarfod.

## Cworwm

6. Bydd cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod yn cynnwys pedwar Aelod ynghyd â’r Cadeirydd. Caniateir presenoldeb aelodau dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo i ddibenion pennu cworwm.

## Cyfarfodydd

7. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd o leiaf 5 gwaith a ddim mwy na 12 gwaith y flwyddyn.

8. Bydd agendâu’n cael eu cymeradwyo gan y Cadeirydd gyda gwahoddiad i unrhyw

   Aelod o’r Panel gyflwyno materion i’w cynnwys ar yr agenda.

9. Bydd cofnodion ffurfiol yn cael eu gwneud o holl gyfarfodydd y Panel. Ar ôl i Gadeirydd y Panel ei gymeradwyo, bydd cofnodion pob cyfarfod o’r Panel hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Panel.

10. Bydd cofnodion pob cyfarfod o’r Panel yn cael eu cyflwyno yn uniongyrchol i Fwrdd Ofcom ar gyfer eu nodi.

11. Os na fydd y Panel yn gallu dod i benderfyniad cydsyniol, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.